MARW AM DŶ BACH

Thema: dŵr a glanweithdra, Wythnos Cymorth Cristnogol

Gwlad dan sylw: Kenya

Nod: i ddangos sut mae cymuned heb gyfleusterau sylfaenol yn ceisio cyd-weithio i newid pethau gyda help mudiad a gefnogir gan Cymorth Cristnogol.

Adnoddau/paratoadau:

- poti neu dŷ bach (os oes un symudol gennych!), rolyn o bapur tŷ bach gyda '57' wedi ei ysgrifennu arno, calendr a bag plastig. Neu defnyddiwch luniau o'r pethau hyn.
- cyflwyniad PowerPoint *Marw am dŷ bach* ar gael o www.christianaid.org.uk/learn

Cyflwyniad

1 **Dangoswch sleid 1** o'r cyflwyniad PowerPoint. Dangoswch i'r disgyblion yr eitemau sydd gennych a gofynnwch iddynt ddyfalu beth yw'r cysylltiad rhyngddynt. Falle bydd yn hawdd gwneud cysylltiad rhwng y papur tŷ bach a'r toiled ond anoddach cysylltu'r calendr a'r bag plastig!

2 Eglurwch fod yr eitemau yn gysylltiedig â mynd i'r tŷ bach. *Mae mynd i'r tŷ bach yn rhywbeth dylai pawb ei wneud bob dydd. Yn gyffredinol mae pobl yn mynd i'r tŷ bach tua 2,500 gwaith y flwyddyn.* Dangoswch y calendr. *Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, eich bod yn treulio tua 6 mis o'ch bywyd yn y tŷ bach… ond nid ar un tro, gobeithio!* Dangoswch y papur tŷ bach. *Dywedir hefyd fod pobl yn defnyddio 57 darn o bapur tŷ bach bob dydd. Tro nesaf ewch i'r siop sylwch ar yr holl bethau gellir eu prynu er mwyn gwneud y profiad o fynd i'r tŷ bach yn un pleserus a chyfforddus - gwahanol liwiau a mathau o bapur, purwr awyr hyfryd, hylif glanhau a hyd yn oed cloriau ar gyfer papur tŷ bach!*

3 Gofynnwch i'r plant os gallent ddyfalu beth yw pwrpas y bag plastig? *Nid yw cael gafael mewn tŷ bach yn hawdd i bawb yn y byd. Mae tua 5,000 o blant yn marw bob dydd oherwydd nad oes dŵr glân, na thoiledau a llefydd ymolchi addas ganddynt.* Mae hynny yn golygu tua tri phlentyn yn marw bob munud.* **Dangoswch sleid 2.** Cyflwynwch Kenya. **Dangoswch sleid 3.** *Mae prinder toiledau yn broblem fawr i Anastacia, sy'n 13 oed, Winifred, sy'n 10 oed a Jeremiah, sy'n 12 oed. Maent yn byw yn un o ardaloedd tlotaf Nairobi, prif ddinas Kenya. Enw'r lle maent yn byw ynddo yw Matopeni, sy'n golygu 'yn y mwd' yn Swahili.*

4 **Dangoswch sleid 4.** *Mae'r bobl sy'n byw yn Matopeni wedi adeiladu draeniau a chwpl o doiledau ond nid ydynt yn gweithio'n iawn. Rhaid i bobl gerdded ar blanciau pren uwchben y draeniau, sy'n cynnwys carthion a llygod mawr. Nid oes tŷ bach yn y 300 o gartrefi sydd yn Matopeni. Dim ond un ystafell sydd yn y rhan fwyaf o'r tai ac os oes angen mynd i'r tŷ bach rhaid defnyddio bag plastig. Yn aml mae'r bagiau yn cael eu taflu y tu allan ar ôl eu defnyddio. 'Toiledau sy'n hedfan' yw'r enw ar hyn.*

cymorth cristnogol

parhad...

POVERTY

5 *Meddai Jeremiah, 'Dwi ddim yn hoffi byw yma. Y peth gwaethaf yw pan mae'n glawio mae'r draeniau yn llenwi ac mae'r dŵr yn gorlifo i mewn i'r tai a dim ond bowlen sydd gennym i gael gwared ohono. Mae'n frwnt ac rydym yn mynd yn sâl. Dwi wedi cael annwyd drwg a dolur gwddf. Mae'n drewi. Mae hyn… oherwydd nad oes gan bobl doiledau addas. Dyna pan mae pobl yn defnyddio "toiledau sy'n hedfan".'*

6 **Dangoswch sleid 5**. *Mae modryb Jeremiah, Veronica, yn benderfynol o wella pethau. Mae hi a'i ffrind wedi dechrau grŵp cymunedol yn Matopeni o'r enw Arise and Shine. Mae partner Cymorth Cristnogol, MNU wedi gweithio hefo cymuned leol arall yn Nairobi i adeiladu toiledau a chawodydd. Nawr mae MNU yn gobeithio gweithio gydag Arise and Shine i adeiladu cyfleusterau dŵr a system carthffosiaeth megis toiledau a chawodydd mae Matopeni eu hangen gymaint. Meddai Veronica, 'Gallwn drawsnewid Matopeni gam wrth gam.'*

7 Eglurwch ei bod hi'n Wythnos Cymorth Cristnogol, pan fydd pobl ar draws y DU ac Iwerddon yn treulio wythnos yn codi arian, gweddïo ac ymgyrchu i gefnogi gwaith yr elusen, Cymorth Cristnogol. Mae Cymorth Cristnogol am roi diwedd ar dlodi byd-eang ac yn credu gall hyn ddigwydd os yw pobl a llywodraethau yn cyd-weithio er mwyn trawsnewid pethau.

8 Heriwch eich plant i feddwl am eu talentau ac os oes modd eu defnyddio i helpu pobl fel Jeremiah. Efallai nad yw gofyn am doiledau iawn yn ymddangos yn ormod, ond gall wneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl.

Gweddi

Annwyl Dduw

Mae'n hawdd anghofio pa mor ffodus yr ydym - rydym yn disgwyl toiledau glân a dŵr glân i ymolchi ac yfed. Mae'n ddrwg gennym am yr holl adegau rydym wedi cymryd hyn yn ganiataol. Rydym eisiau cofio am bobl ar draws y byd sydd heb y pethau hyn. Helpa ni i gyd-weithio i newid pethau er gwell, boed trwy gadw ein cymunedau yn daclus ac yn lân, neu wrth wneud pethau i helpu cymunedau ar draws y byd. Rydym am weld byd sy'n rhydd o dlodi. Helpa ni i edrych am ffyrdd i wneud hynny.

Amen.

Gweithredu

Dyma rai syniadau ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu hysbrydoli gan y gwasanaeth ac sydd am wneud gwahaniaeth:

- defnyddiwch eich talent! Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i chi ddefnyddio eich talentau i godi arian. Efallai bod pobl gerddorol yn eich ysgol a gellir cynnal perfformiad, neu a oes talent arbennig gall rai disgyblion eu defnyddio i godi arian i Cymorth Cristnogol? Am adnoddau a syniadau pellach am weithgareddau codi arian, archebwch y pecyn *Unleash Your Talent* o **www.caweek.org**
- defnyddiwch Antur Byd-eang, (**www.christianaid.org.uk/learn/globalexplorers**) ar fwrdd gwyn rhyngweithiol eich ysgol i ddarganfod mwy am waith Cymorth Cristnogol ac ewch at storïau Jamila o Ethiopia a Jerzon o Honduras sydd wedi wynebu'r un math o broblemau o brinder dŵr glân a chyfleusterau toiledau ac ymolchi.

*www.unicef.org.uk/campaigns/campaign_detail.asp?campaign=24&nodeid=campaign24&section=9

Gellir defnyddio'r deunydd hwn ar gyfer amcanion addysgiadol, ond i ddosrannu'n ehangach, neu er elw masnachol, rhaid cael caniatâd gan Cymorth Cristnogol.

Ysgrifennwyd gan Pippa Durn ar gyfer Cymorth Cristnogol 2009.

Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol; Mae Poverty Over yn nod masnach Cymorth Cristnogol.
© Cymorth Cristnogol, Rhagfyr 2009

Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525

www.caweek.org

cymorth cristnogol

POVERTY